# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12:00 ar 1 Rhagfyr 2021; cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd y Cadeirydd – Rhun ap Iorwerth AS – y cyfranogwyr i'r cyfarfod. Dywedodd fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Gadeirydd y Grŵp – Huw Irranca-Davies AS – a oedd ynghlwm wrth gwaith pwyllgor y Senedd. Estynnodd groeso arbennig i'r Aelodau o'r Senedd oedd yn bresennol ac i'r cynghorwyr a'r swyddogion llywodraeth leol a oedd yn bresennol am y tro cyntaf. Ymddiheurodd nad oedd Teams yn caniatáu cyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd ac eglurodd fod y Senedd yn y broses o gyflwyno Zoom, a fyddai'n caniatáu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol.

**Trafodaeth ar hyfywedd e-sgwteri fel dull o deithio cynaliadwy a'u heffaith ar deithio llesol:** Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth trwy ddatgan ei fod yn hoff iawn o e-sgwteri ond yn ymwybodol o'u hanfanteision, nid yn lleiaf gan fod ei ferch yn feiciwr ac wedi sôn ei bod yn eu hystyried yn fwrn ar lonydd beic. Croesawodd ddau siaradwr gwadd sef Ross Ringham – Cyfarwyddwr Cyfathrebu Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia ar gyfer Superpedestrian, sy'n gwmni symudedd micro byd-eang – a Gareth Morgan, Prif Arolygydd Dros Dro Heddlu De Cymru.

Amlinellodd Ross y gwahaniaeth rhwng e-sgwteri a rennir ac e-sgwteri personol. Disgrifiodd gynlluniau a rennir fel a ganlyn: wedi'u rheoleiddio i raddau helaeth, wedi'u cyfyngu o ran cyflymder, at ddefnydd y cyhoedd ac wedi'u geoffensio, tra bod e-sgwteri personol heb eu rheoleiddio yn y DU ar hyn o bryd, yn aml yn gallu symud ar gyflymder ac nid oedd yn ofynnol i addysgu'r rheini sy'n eu defnyddio. Nid oedd yn glir faint o e-sgwteri personol oedd yn cael eu defnyddio yn y DU ond yn yr Eidal – lle'r oedd 42,000 o e-sgwteri a rennir – roedd 500,000 o beiriannau personol. Mae dau fath o gynllun a rennir: RFP, pan mae'r awdurdod lleol wedi contractio darparwr gwasanaeth, a Thrwydded, pan fo'r awdurdod lleol wedi darparu fframwaith rheoleiddio ar gyfer nifer o weithredwyr. Fel arfer, y gweithredwr oedd yn gyfrifol am ariannu'r cynllun, er bod rhai awdurdodau lleol wedi codi tâl ar y gweithredwyr. Roedd lefelau amrywiol o ofynion at ddibenion addysgu'r rheini sy'n defnyddio'r sgwteri, geoffensio, cyflymder ac ymddygiad o ran parcio. Rhestrodd fanteision e-sgwteri a rennir fel a ganlyn: eu bod yn cynnig systemau hyblyg a graddadwy; maen nhw'n boblogaidd gyda'r rheini sy'n eu defnyddio, reidiau 13m yn y DU; maent yn darparu cyfyngiadau o ran cyflymder, geoffensio ac arloesiadau diogelwch eraill. Amcangyfrifodd fod y newid mewn cyfrwng oddi ar geir tua 30%, er ei bod yn anodd cael gafael ar ffigurau cywir. Prin oedd y dystiolaeth o newid o feiciau i sgwteri ac o ganlyniad, ychydig o ddefnyddwyr oedd â'r un gallu i ddefnyddio'r ffordd â beicwyr. Maen nhw'n hwyl i'w defnyddio, a hynny wedi helpu i'w gwneud yn ddewis poblogaidd yn lle'r car. Roedd anfantais y cynlluniau a rennir yn cynnwys sgwteri'n dod i ben yn gyflym oherwydd traul a fandaliaeth; problemau gyda defnyddio'r sgwteri ar balmentydd ac annibendod a achosir gan sgwteri sydd wedi

parcio'n anghywir; hyfywedd ariannol rhai cynlluniau.  Roedd o'r farn – gyda'r dechnoleg gywir a fframwaith rheoleiddio – y gellid goresgyn yr holl broblemau hyn.

Amlinellodd Gareth sefyllfa gyfreithiol bresennol e-sgwteri.  Nid oeddent yn fath o gerbyd cydnabyddedig i'w ddefnyddio ar briffyrdd cyhoeddus yn y DU y tu allan i'r cynlluniau peilot o ran defnydd a rennir, ac nid oedd yr un ohonynt yng Nghymru.  Roedd hyn yn golygu bod yr holl e-sgwteri preifat y tu allan i'r cynlluniau peilot yn gweithredu heb unrhyw yswiriant. Mae'r heddlu'n cymryd camau yn erbyn defnydd anghyfreithlon, gan gynnwys atafaelu sgwteri ond mae adnoddau'r heddlu dan bwysau.  Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgwteri a ddefnyddir yn y cynlluniau rheoledig a rhai peiriannau preifat, roedd Heddlu Llundain wedi atafaelu un gyda chyflymder uchaf o 80mya. At hynny. mae problemau gyda batris yn achosi tanau, gan gynnwys ar y Tiwb. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd teithio gydag allyriadau isel, roedd o'r farn bod angen i ni ystyried deddfwriaeth. Dyma'r cwestiynau allweddol a nodwyd ganddo: Ymhle byddem am iddynt gael eu defnyddio – os ar lonydd beicio, a fyddai hynny'n cael effaith andwyol ar feicwyr, os ar lwybrau troed a fyddai hynny'n peri anghyfleustra i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd sy'n agored i niwed? Dylid cyfyngu ar y meysydd lle gellid defnyddio geoffensio.  Beth ddylai'r terfyn oedran ar gyfer ei ddefnyddio fod? Pa offer amddiffyn personol ddylai fod yn ofynnol, ac a ddylai goleuadau fod yn orfodol drwy'r amser neu dim ond gyda'r nos?  A ddylai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr gwblhau cwrs hyfforddi?  A ddylai fod nod cofrestru gorfodol i atal troseddu?

Yn dilyn hynny, cafwyd cyfres o gwestiynau i'r siaradwyr.  O ran lefelau fandaliaeth yn ardaloedd y cynllun peilot, atebodd Ross fod hyn yn tueddu i fod yn fwy o broblem mewn ardaloedd difreintiedig, ond nid oedd yn broblem rhy fawr yn y DU yn gyffredinol   Pan ofynnwyd iddo a oedd yr heddlu'n cael eu gwahardd rhag mynd ar ôl defnyddwyr e-sgwteri, dywedodd Gareth y gallent fynd ar ôl defnyddwyr dim ond os oedd modd clir o ddod â'r sefyllfa i derfyn – ni ellid defnyddio '*stingers*', er enghraifft, fel yn achos ceir.

Roedd y canlynol ymhlith materion eraill a godwyd: a fyddai gosod mesurau megis platiau cofrestru ar sgwteri yn arwain y ffordd at ofynion tebyg ar gyfer beicwyr, gyda gostyngiad mewn beicio o ganlyniad; a fyddai cyfyngu e-sgwteri i gynlluniau a rennir yn eu cyfyngu i ardaloedd trefol mwy o faint, gan eithrio ardaloedd gwledig; eu rôl bosibl wrth greu diwylliant o barch at deithwyr sy'n agored i niwed; yn debyg i wella diogelwch beiciau modur gyda gwell rheoleiddio a thechnoleg; diffyg darpariaeth ar gyfer ailgylchu'r batris. Eglurodd y byddai'n rhaid i'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gyfreithloni a rheoleiddio e-sgwteri ddod o San Steffan.

Wrth gloi'r drafodaeth, daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod rôl i e-sgwteri wrth ddatblygu system drafnidiaeth fwy cynaliadwy, ond bod angen polisïau a rheoliadau mwy clir.  Hoffai weld cynllun yn cael ei dreialu yng Nghymru.  Diolchodd y Cadeirydd i'r holl siaradwyr a'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniadau.

**Adolygu'r Ddeddf Teithio Llesol:** Atgoffodd y Cadeirydd y cyfarfod fod y Grŵp wedi cytuno i gynnal adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol, er mwyn caniatáu i'r Grŵp gyfrannu at yr adolygiad statudol o'r Ddeddf yr oedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ei gynnal erbyn

diwedd 2022. Cynigiwyd sefydlu panel i ddrafftio adroddiad i'w ystyried gan y Grŵp ac roedd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Panel wedi'i gyflwyno, gweler Atodiad A. Ceisiwyd sicrwydd – ac fe gafwyd hynny – ynghylch y byddai'r adolygiad yn un eang ei gwmpas a heb ei gyfyngu i ddarpariaethau’r Ddeddf bresennol yn unig. Soniwyd bod gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ddiddordeb mawr yn y modd yr oedd y Ddeddf yn effeithio ar farchogion. Cafodd y Cylch Gorchwyl ei dderbyn gan y cyfarfod.

**Arfer Da wrth Ddarparu Teithio Llesol – *SeE Cycling Differently*, Pedal Power:** Croesawodd y Cadeirydd Sian Donovan, Cyfarwyddwr *Pedal Power* sef yr elusen beicio i bawb. Soniodd Sian am waith ei helusen gan ddweud bod yn rhaid i feicio ddod yn gynhwysol i bawb, nid yn unig i iechyd pobl sy’n defnyddio beiciau ond er mwyn iechyd y blaned. Athroniaeth Pedal Power yw mai nad rhywbeth i bobl ffit yn unig yw beicio ond ei fod ar gyfer pawb, ac mae gan Pedal Power amrywiaeth eang o feiciau a beiciau tair olwyn wedi'u haddasu sy’n galluogi bron â bod pawb i feicio. Roedd eu prosiect – *SeE Cycling Differently*, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru – wedi cyflwyno fflyd o feiciau trydan, beiciau tair olwyn a chargo, gan gynnig cyfleoedd i feicio gyda llai o ymdrech a mynd i’r afael â bryniau a phellteroedd hirach. Roedd yn caniatáu i bobl ddefnyddio beicio i’w helpu i wella o salwch, ac i bobl a oedd yn dioddef o gyflyrau fel Parkinsons i barhau i feicio trwy newid i feiciau tair olwyn. Mae’r elusen yn gweithredu o ddwy ganolfan, sef canolfan barhaol ym Mhontcanna a chanolfan lai ym Mae Caerdydd, gyda’r naill a’r llall yn cynnig mynediad hawdd at lwybrau beicio o safon. At hynny, bydd y prosiect newydd yn caniatáu i bobl roi cynnig ar e-feiciau cyn prynu. Mae hi'n awyddus i weithio gyda sefydliadau eraill i wneud y beiciau'n fwy fforddiadwy, gan y gallen nhw fod yn ddrud iawn ac ni ddylai pobl lai cefnog gael eu hatal rhag symud o gwmpas. At hynny, mae hi’n awyddus i weld sefydliadau fel Pedal Power yn datblygu mewn rhannau eraill o Gymru. Codwyd y mater o'r angen am fannau mwy diogel i barcio beiciau, o ystyried gwerth uchel e-feiciau. Diolchodd y Cadeirydd i Sian am ei chyflwyniad a llongyfarchodd Pedal Power ar eu gwaith rhagorol.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o’r cyfarfod.

**Materion sy’n codi**: Adroddodd y Cadeirydd ar y cynnydd o ran hyrwyddo pecyn cymorth y grŵp, sef y Pecyn Teithio Llesol i Ysgolion. Cafwyd cefnogaeth sylweddol gan aelodau’r grŵp gyda nifer o awdurdodau lleol yn ei ddosbarthu i bersonél allweddol ac yn ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Erbyn hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn ei gynnal ar eu gwefan: [Active-Travel-to-School-ToolkitCym.pdf] ac [Active-Travel-to-School-Toolkit-Eng.pdf] . Siaradodd y Cadeirydd am y modd yr oedd wedi dosbarthu'r Pecyn Cymorth i bob ysgol yn ei etholaeth. Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â'r Ysgrifennydd gydag awgrymiadau ar sut i godi proffil y Pecyn Cymorth ymhellach, yn enwedig ymhlith llywodraethwyr ysgolion ac athrawon.

**Unrhyw fater arall:** Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth â’r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Rhun | ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Ruth | Billingham | Pennaeth Ymgyrchoedd a Materion Cyhoeddus | Living Streets |
| Christine | Boston | Cyfarwyddwr | Sustrans Cymru |
| Rebecca | Brough | Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth | Ramblers Cymru |
| Richard | Brunstrom | | Cycling UK, Gogledd Cymru |
| Nancy | Cavill | Uwch Ymgynghorydd | Julie Morgan AS |
| Teresa | Ciano | Rheolwr Partneriaeth | Gan Bwyll, Diogelwch Ffyrdd Cymru |
| Helen | Cunningham | Staff Aelod o'r Senedd | John Griffiths AS |
| Siân | Donovan | Cyfarwyddwr | Pedal Power |
| Ryland | Doyle | Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil | Mike Hedges AS |
| David | Edwards | | Casnewydd Community Cycling |
| Ryan | Ellis | Swyddog Cyfathrebu | Janet Finch-Saunders AS |
| Hazel | Evans | Yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Ken | Evans | Cadeirydd | Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru |
| Richard | Evans | Cadeirydd | Hyfforddiant Beicio Cymru |
| Christine | Farr | Uwch Arbenigwr Hybu Iechyd – Ysgolion Iach | Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru |
| Janet | Finch-Saunders | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Matthew | Gilbert | Arweinydd Teithio Llesol | Trafnidiaeth Cymru |
| Danny | Grehan | Staff Aelod o'r Senedd | Heledd Fychan AS |
| Owain | Griffiths | | Dinas Feicio Caerdydd |
| Heulwen | Hulme | Deiliad Portffolio'r Amgylchedd | Cyngor Sir Powys |
| Brian | Jones | Aelod Arweiniol, Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | Cyngor Sir Ddinbych |
| Peter | King | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth | Cyngor Bro Morgannwg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gareth | Morgan | Prif Arolygydd Dros Dro | Heddlu De Cymru |
| Amy | Nicholas | | Active Travel West Wales |
| Gwenda | Owen) | Swyddog Ymgysylltu – Cymru | Cycling UK |
| Matt | perai | Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu | Cyngor Sir Powys |
| Amy | Preece | Rheolwr Prosiect | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Dareyoush | Rassi | Ysgrifennydd | Wheelrights |
| Jenny | Rathbone | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Ross | Ringham | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ar gyfer Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia | Superpedestrian |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Heledd | Roberts | Staff Aelod o'r Senedd | Rhun ap Iorwerth AS |
| Geoff | Rone | | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Emma | Sandrey | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| John | Sayce | Cadeirydd | Wheelrights |
| Gwyn | Smith | Rheolwr Datblygu South Wales Network | Sustrans |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Paul | Streets | Swyddog Ysgolion | Dinas Feicio Caerdydd |
| Paul | Sullivan | Rheolwr Ieuenctid, Chwaraeon a Theithio Llesol | MonLife, Cyngor Sir Fynwy |
| Mark | Thomas | Yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd Rheoli Isadeiledd a Gwella | Dinas a Sir Abertawe |
| Stuart | Thomas | Rheolwr SLA Iechyd a Diogelwch | Cyngor Caerdydd |
| Dafydd | Trystan | Cadeirydd | Llywodraeth Cymru. Bwrdd Teithio Llesol |
| Tom | Wells | | Active Travel West Wales |

**Ymddiheuriadau:**

Anne Adams-King, Prif Swyddog Gweithredol, Beicio Cymru
Joseph Carter, Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Jane Dodds, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Huw Irranca-Davies, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Delyth Jewell, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Keith Jones, Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru
Mike Jones-Pritchard, Cynghorydd Sir, Cyngor Caerdydd

Hugh Mackay, Cycling UK, Bro Morgannwg
David Naylor, Wheelrights
Peredur Owen Griffiths, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Matt Price, Arweinydd Tîm, Gweledigaeth, Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth, Cyngor Caerdydd
Julie Robinson, Cadeirydd, Active Travel West Wales
Ross Williams, Staff Aelod o'r Senedd Rebecca Evans, Rebecca Evans AS

**Atodiad A: Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Adolygiad y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol, o'r Ddeddf Teithio Llesol**

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal 'adolygiad o weithrediad y Ddeddf hon, gyda'r nod penodol o asesu pa mor llwyddiannus y bu wrth sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig presennol'. Rhaid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn hydref 2022. Mae llwyddiant rhoi'r Ddeddf ar waith yn ganolog i ddiben grŵp trawsbleidiol hwn. Cynigiwyd, felly, y dylai'r Grŵp ddechrau ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud â pherfformiad y Ddeddf a pharatoi ei adroddiad ei hun, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i adolygiad Llywodraeth Cymru. At hynny, dylai'r adroddiad ddarparu data pwysig i lywio rhaglen waith y Grŵp yn y dyfodol.

Strwythur Adolygiad arfaethedig y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

Bydd Panel yn cael ei sefydlu i wahodd tystiolaeth gan sefydliadau sy'n ymwneud â darparu a hyrwyddo teithio llesol yng Nghymru, neu sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan hynny. Bydd y panel – a fydd yn cynnwys dim mwy na naw aelod – yn cynnwys ymarferwyr sydd â phrofiad o gyflwyno mesurau teithio llesol mewn awdurdodau lleol, ac o sefydliadau teithio llesol cenedlaethol a lleol. Bydd yr adolygiad yn ystyried materion hygyrchedd a chydraddoldeb ehangach yn ymwneud â theithio llesol, yn ogystal ag effaith daearyddiaeth amrywiol Cymru. Bydd cyfansoddiad y panel yn adlewyrchu'r anghenion amrywiol hyn.

Gofynnir i'r panel ystyried y canlynol:

1. Y cynnydd cyffredinol o ran cyflawni diben y Ddeddf, sef gwneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf naturiol ac arferol o fynd o gwmpas.
2. Rhoi pedair darpariaeth allweddol y Ddeddf ar waith, ac effeithiolrwydd hynny: Cynllunio a datblygu rhwydweithiau teithio llesol.
   Gwella cyfleusterau ar gyfer teithwyr llesol wrth adeiladu neu wella priffyrdd.
   Ystyried anghenion teithwyr llesol wrth ymgymryd â gwaith stryd sy'n hyrwyddo teithio llesol.
3. Cyllid ac adnoddau eraill.
4. Rhoi darpariaethau'r Ddeddf ar waith.

Bydd adroddiad y panel yn canolbwyntio ar bennu'r rhesymau pam mae'r Ddeddf, hyd yn hyn, wedi methu â chynyddu lefelau cerdded a beicio yng Nghymru, ac ar gyflwyno'r mesurau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i alluogi'r Ddeddf i gyflawni ei huchelgeisiau gwreiddiol, boed yn rhai rheoleiddiol, sefydliadol neu'n ymwneud ag adnoddau.

Bydd y panel yn paratoi ei adroddiad drafft i'w ystyried gan y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol erbyn mis Gorffennaf 2022.